

2021 Rhif

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD LLUNDAIN I
ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT
LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN))
2021**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981⁽²⁾ a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2 o erthygl 2 at ddiben:

- (a) adeiladu cefnffordd newydd o bwynt ar y gefnffordd i'r dwyrain o Gapel Bethel yng Nghymuned Llanddewi Felffre yn Sir Benfro hyd at bwynt ar y gefnffordd i'r gorllewin o Gylchfan Penblewin yng Nghymuned Arberth Wledig yn Sir Benfro, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;

(1) 1980 (p. 66). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1981 (p. 67)

2021 No

**THE HIGHWAYS ACT 1980 and
THE ACQUISITION OF LAND ACT 1981**

**THE WELSH MINISTERS (THE
LONDON TO FISHGUARD TRUNK
ROAD (A40) (LLANDDEWI VELFREY
TO PENBLEWIN IMPROVEMENT))
COMPULSORY PURCHASE ORDER
2021**

The Welsh Ministers (in this Order called “the acquiring authority”) make the following Order.

1. Subject to the provisions of this Order, the acquiring authority is, under sections 239, 240, 246, 250 and 260 of the Highways Act 1980⁽¹⁾ and under section 2 of, and paragraph 1(1)(b), (3) and (4) of Part 1 of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981⁽²⁾, hereby authorised to purchase compulsorily the land and the new rights over land described in paragraph 2 of article 2 for the purpose of:

- (a) the construction of a new trunk road from a point on the trunk road, east of Bethel Chapel in the Community of Llanddewi Velfrey in the County of Pembrokeshire to a point on the trunk road west of Penblewin Roundabout in the Community of Narberth Rural in the County of Pembrokeshire, in pursuance of the Trunk Road Order;

(1) 1980 (c.66). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and section 162 of, and Schedule 1 and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1981 (c.67)

- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd o bwynt ar y gefnffordd i'r dwyrain o Gapel Bethel hyd at bwynt ar y gefnffordd i'r gorllewin o Gylchfan Penblewin, yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) gwella'r gefnffordd, yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd;
- (d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod;
- (e) darparu adeiladau a chyfleusterau i'w defnyddio mewn cysylltiad ag adeiladu, defnyddio a chynnal cefnffyrdd;
- (f) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r gwaith gwella priffyrdd hwnnw a gwneud y gwaith arall a grybwyllir uchod; ac
- (g) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth neu ddefnydd o unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu hadeiladu neu eu gwella ar eu hamgylchoedd.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r planiau cysylltiedig wedi eu hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn.

2. (1) Y tir yr awdurdodir ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen gysylltiedig ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ag ymyl coch ar y map y paratowyd dau gopi ohono, ac sydd wedi ei farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felfre i Benblewin)) 2021".

(2) Caiff yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn eu disgrifio yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ag ymyl

- (b) the construction and improvement of highways and the provision of new means of access to premises from a point on the trunk road, east of Bethel Chapel to a point on the trunk road west of Penblewin Roundabout, in the said Communities in the said County, in pursuance of the Side Roads Order;
- (c) the improvement of the trunk road, in the said Communities in the said County;
- (d) the execution of works on watercourses in connection with the construction of the new trunk road and the construction and improvement of other highways and the execution of other works mentioned above;
- (e) the provision of buildings and facilities to be used in connection with the construction, use and maintenance of trunk roads;
- (f) use by the Welsh Ministers in connection with such improvement of highways and the execution of other works mentioned above; and
- (g) the mitigation of any adverse effects which the existence or use of certain of the highways proposed to be constructed or improved will have on the surroundings thereof.

Copies of the Trunk Road Order and the Side Roads Order and the accompanying plans are deposited along with the map referred to in Article 5 of this Order.

2. (1) The land authorised to be purchased compulsorily under this Order is the land described in the accompanying Schedule and delineated and shown coloured pink edged red on the map prepared in duplicate and marked "The Welsh Ministers (The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement)) Compulsory Purchase Order 2021".

coch ar y map hwnnw.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddiben darpariaethau Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith sydd i'w adeiladu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd unrhyw bellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr iddo ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 o fetrau, pa un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40);

ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*") yw'r darn o gefnffordd newydd sydd i'w adeiladu yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;

ystyr "y Gorchymyn Cefnffordd" ("*the Trunk Road Order*") yw "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felfre i Benblewin a Thynnu Statws Cefnffordd) 2021";

ystyr "y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl" ("*the Side Roads Order*") yw "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felfre i Benblewin) (Ffyrdd Ymyl) 2021";

ystyr "y map" ("*the map*") yw'r map sydd wedi ei farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felfre i Benblewin)) 2021" ac wedi ei lofnodi gan un o swyddogion yr awdurdod caffael.

(2) The new rights to be purchased compulsorily under this Order are described in the Schedule and the land is shown coloured blue edged red on the said map.

3. Parts II and III of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981 are hereby incorporated with this Order subject to the modifications that references in the said Parts of the said Schedule to the undertaking shall be construed as references to the land authorised to be purchased and any buildings or works constructed or to be constructed thereon.

4. For the purpose of the provisions of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981, as incorporated in this Order, the prescribed distance in relation to any seam of minerals lying under land adjoining the works to be constructed upon the land described in the Schedule to this Order shall be such a lateral distance from the said works on every side thereof as is equal at every point along the said works to one half of the depth of the seam below the natural surface of the ground at that point or 37 metres whichever is the greater.

5. In this Order:

"the map" ("*y map*") means the map marked "The Welsh Ministers (The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement)) Compulsory Purchase Order 2021" signed by an official of the acquiring authority;

"the new trunk road" ("*y gefnffordd newydd*") means the length of new trunk road to be constructed pursuant to the Trunk Road Order;

"the trunk road" ("*Welsh translation required here*") means The London to Fishguard Trunk Road (A40);

"the Trunk Road Order" ("*y Gorchymyn Cefnffordd*") means "The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement and De-Trunking) Order 2021";

"the Side Roads Order" ("*y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl*") means "The London to Fishguard

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Llanddewi Felfre i Benblewin)) 2021.

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.



N HUNTER
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 24 Mawrth 2021

Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement) (Side Roads) Order 2021”.

6. The title of this Order is The Welsh Ministers (The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvement)) Compulsory Purchase Order 2021.

Signed by an official of the Welsh Government on behalf of the Welsh Ministers.



N HUNTER
Business Team Leader
Welsh Government

Dated 24 March 2021